O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1308 (Cy. 161)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *23 Mai 2011*

Yn dod i rym *5 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twneli Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 5 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o'r pwynt croesi oddeutu 50 o fetrau i'r gogledd o Dwneli Gibraltar i'r pwynt croesi oddeutu 400 o fetrau i'r de o'r twneli hynny;